

EIN STRATEGAETH GYFATHREBU 2024 - 2027

LLAIS 

Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care



CYFLWYNIAD

Ni yw **Llais**, corff llais y dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn annibynnol yn weithredol. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n cael dewis yr hyn rydyn ni'n gweithio arno, sut rydyn ni'n gweithio, a gyda phwy rydyn ni'n gweithio. Cawsom ein sefydlu ym mis Ebrill 2023 ac mae gennym tua 130 o staff, ym mhob cornel o Gymru. Rydym yn trefnu ein hunain yn 7 rhanbarth ledled Cymru. Mae ein tîm cenedlaethol yn cefnogi ein holl dimau i gyflawni ein gwaith. Ein Bwrdd sy'n gosod ein cyfeiriad strategol. Mae'n sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i wneud yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – yn y ffordd sy'n diwallu anghenion pobl orau. Rydym yn gweithio gyda phobl Cymru i roi llais cryfach i chi a chynrychioli eich diddordebau o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel eich llais ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae sut, pryd a ble rydym yn cyfathrebu ein gwaith yn bwysig.

Rydym am i'n cyfathrebu fod yn bwrpasol, yn berthnasol, yn amserol, yn addysgiadol, yn ddiddorol, yn ddymunol ac yn effeithiol. Rydyn ni eisiau ehangu lleisiau pobl Cymru o ran sut rydyn ni'n cyfathrebu'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Rydym am sicrhau ein bod yn cael ein llywio gan drawma yn ein cyfathrebu. Mae hyn yn golygu y byddwn yn feddylgar, yn garedig ac yn ddeallus wrth gyfathrebu â phobl, gan gydnabod y gall yr hyn rydym yn siarad amdano arwain at deimladau a phrofiadau anodd iddynt, a allai effeithio ar y ffordd y maent yn siarad neu'n ymateb.

O dan Adran 14 o Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020 , mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r GIG ac Awdurdodau Lleol i'w helpu i ledaenu'r gair am yr hyn a wnawn, a ddisgwylir ganddynt o dan Adran 17 o'r Ddeddf.

Mae'r strategaeth hon yn sôn am y ffyrdd y byddwn yn gwneud hyn i wneud yn siŵr bod holl bobl a chymunedau Cymru yn ymwybodol o Llais a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu i lunio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn annibynnol, a byddwn yn codi llais pan na fydd pethau'n iawn, a byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr arfer da a welwn. Byddwn yn herio'r rhai sydd mewn sefyllfa i wneud newidiadau sy'n effeithio arnoch chi.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar ein pum Blaenoriaeth Strategol, a nodir yn ein Cynllun Strategol, sef:

- 1. Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**
- 2. Pwysu am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl.**
- 3. Cydweithio'n well.**
- 4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.**
- 5. Tyfu a gwella fel sefydliad.**

EIN GWERTHOEDD A’N HYMDDYGIAD

Mae ein gwerthoedd a’n hymddygiad bob amser yn rhedeg drwy’r holl waith a wnawn, yn ogystal â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Rydym yn gweithio ar draws llawer o feysydd – i fod yn llais i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein gwaith yn amrywiol, ac mae hyn yn golygu newid y ffordd rydym yn cyfathrebu fel bod pob llais yng Nghymru yn cael ei glywed. Mae hyn hefyd yn golygu bod angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu mewn llawer o wahanol leoedd – codi mwy o leisiau, bod yn rhan o fwy o sgysiau a bod mewn mwy o leoliadau fel y gallwn helpu’r cyhoedd i barhau i lywio a dylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae’r Strategaeth Gyfathrebu tair blynedd hon yn nodi’n fanylach y gwahanol ffyrdd y byddwn yn gwneud hyn.

Byddwn yn defnyddio dulliau amrywiol i wella ein cyfathrebu o fewn Llais a gyda’r bobl a’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn fwy effeithiol wrth rannu gwybodaeth am ein gwaith a’i effaith.

HYGYRCHEDD

Rydym eisiau bod yn sefydliad y gall pawb yng Nghymru gael mynediad iddo, gan wneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n addas i unigolion.

Ymdrechwn i ragori ar Safonau'r Gymraeg a dilyn arferion da. Mae ein Gweithgor Iaith Gymraeg yn Llais yn canolbwyntio ar bob agwedd o ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol.

Mae ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gan mai dyma'r lle cyntaf yn aml i bobl fynd i ddysgu am Llais, mae'n hanfodol ei fod mor hygyrch â phosibl i wasanaethu pawb yng Nghymru. Byddwn yn gwirio'r wefan yn rheolaidd am faterion hygyrchedd ac yn gweithio gyda'n datblygwyr gwe i ddatrys unrhyw broblemau yn gyflym. Byddwn yn parhau i wella ein cyfathrebu i hyrwyddo arferion hygyrchedd da a mabwysiadu dulliau newydd.

Rydym yn darparu ein taflenni gwybodaeth, llyfrynnau, a dogfennau canllaw yn y 10 iaith a siaredir fwyaf yng Nghymru, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod gennym yr un dogfennau ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddarllen, a Braille. Rydym hefyd yn darparu dehongliad BSL.

Byddwn yn darparu cymorth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i bawb nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt i'w cefnogi i ddefnyddio'r gwasanaethau a gynigiwn yn Llais. Rydym fel sefydliad yn edrych ar ffyrdd o wella ein harlwy cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, fel y gall pawb sydd angen ein gwasanaethau deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu iaith o ddewis.

BRAND LLAIS

Mae Llais yn fudiad i bawb sy'n byw yng Nghymru felly byddwn yn defnyddio iaith sy'n hawdd ei deall gan bawb y mae angen i ni gyfathrebu â nhw, tra hefyd yn bod yn broffesiynol.

Gall tôn ein llais newid yn dibynnu ar y sianel gyfathrebu – er enghraifft, ar gyfer ein cylchlythyr mewnol, neu gyfryngau cymdeithasol bydd ein tôn – yn gyfeillgar, yn achlysurol, yn ddifyr, neu'n gyfeillgar, yn achlysurol, yn addysgiadol, yn dibynnu ar y cynnwys.


CYNULLEIDFA

Fel sefydliad sy'n gwasanaethu pawb sy'n byw yng Nghymru, mae gennym sawl cynulleidfa allanol. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Pobl a chymunedau Cymru**
- **Awdurdodau lleol**
- **GIG Cymru**
- **Llywodraeth Cymru**
- **Cyrff cynrychioliadol – Gofal Cymdeithasol Cymru, Coleg Brenhinol y Nyrsys, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru**
- **Cyrff rheoleiddio – Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
- **Trydydd sector**
- **Y cyfryngau**

CYFATHREBU ALLANOL

Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n gweithio gyda phawb rydyn ni'n ceisio'u cyrraedd ac mae gennym ni bedwar prif nod strategol ar gyfer sut rydyn ni'n cyfathrebu â'r rhai y tu allan i Llais:



Ble ydyn ni nawr?

Mae ymwybyddiaeth brand yn parhau i fod yn eithaf isel – mae hyn yn golygu nad oes digon o bobl yn gwybod amdanom eto. Erbyn 1 Ebrill 2024, roeddem wedi cyrraedd 294,654 o bobl yn ein blwyddyn gyntaf ar gyfryngau cymdeithasol, gyda 1,868 o gefnogwyr a dilynwyr newydd.

Cyrhaeddodd ein cyfryngau cymdeithasol 1.979 miliwn o bobl yn ein blwyddyn gyntaf.

Grŵp oedran mwyaf ein defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yw 35–44 oed.

Rydym wedi cael 3,900 o ymwelwyr i'n gwefan yn ein blwyddyn gyntaf.

Mae rhai aelodau o staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dal yn anymwybodol o Llais a'r hyn rydym yn ei wneud, er bod hyn yn newid.

Rydym yn dechrau gweithio gyda'r GIG ac arweinwyr Cyfathrebu Awdurdodau Lleol i archwilio ffyrdd y gallant rannu gwybodaeth am ein gwaith.

Mae mwy o ymwybyddiaeth o Llais ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol oherwydd i ni ddisodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned a ffurfiwyd yn 1974.

Ble rydyn ni eisiau bod?

Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'n cynnwys, yn ei rannu, ac yn ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

Cynhyrchu cynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae pobl yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd.

Mae staff Cyfathrebu ac Uwch Swyddogion Gweithredol y GIG a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn gwybod pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio.

Mae'r GIG a Gofal Cymdeithasol yn rhannu'r hyn a wnawn ag eraill.

Mae cynnydd o 20% yn nifer y bobl sy'n cwblhau ein harolwg i ddweud wrthym am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn cyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â phobl, cymunedau, a'n rhanddeiliaid i wneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu yn yr iaith a'r ffordd y mae pobl angen inni wneud hynny.

Ymddiriedolaeth

Mae Llais yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy, annibynnol a dibynadwy.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Gweithio ochr yn ochr â sefydliadau, cyrff cyhoeddus, a'r rhai sy'n gyfrifol sy'n gallu rhannu gwybodaeth am bethau y mae ein cynulleidfaoedd am glywed amdanynt.**
- **Cyfleu effaith ein gwaith a gofyn i eraill ddweud pryd rydym wedi helpu i wneud gwahaniaeth.**
- **Cyfathrebu â'r bobl iawn, yn y lleoedd iawn, ar yr amser iawn.**
- **Dod o hyd i lysgenhadon i Llais ymhlith ein pobl, cymunedau a rhanddeiliaid. Siarad yn gyhoeddus pan fyddwn ni'n meddwl bod pethau'n anghywir.**

Ysbrydoliaeth

Mae Llais yn gweithio mewn ffordd sy'n ysgogi eraill i gamu ymlaen ac ymuno â'r Sgwrs Genedlaethol.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Rhannu straeon go iawn am sut mae Llais wedi gwneud gwahaniaeth, gan chwyddo lleisiau'r rhai sy'n siarad â ni a dangos sut mae'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn bwysig.**
- **Defnyddio adborth gan bobl a chymunedau i ddangos pam mae angen newid.**
- **Tynnu sylw at arfer da sydd wedi'i ysbrydoli gan leisiau'r cyhoedd yng Nghymru.**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i ymuno â Llais fel gwirfoddolwr, aelod o staff, neu sefydliad partner.**

Ymwybyddiaeth

Llais yw'r man cychwyn i bobl sydd â sylwadau am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac mae pobl Cymru yn deall pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Sicrhau bod ffocws i'n hymgyrchoedd, bod ganddynt alwad glir i weithredu, a'u bod yn cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru.**
- **Sicrhau bod ein cyfathrebiadau yn hygyrch i bawb yng Nghymru.**
- **Cyrraedd pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn ogystal â'r rhai sydd ag ef.**
- **Hyrwyddo ein gwaith yn gyfartal yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru.**

Cymuned

Mae Llais yma i bawb ac yn gweithio ar sail leol, rhanbarthol a chenedlaethol i wasanaethu pobl Cymru.


Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Arddangos sut mae Llais yn ymgysylltu â phobl a chymunedau yn lleol a thynnu sylw at yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'r gwaith hwn.**
- **Rhannu ein partneriaethau a chydweithio â sefydliadau cymunedol allweddol.**
- **Dathlu gwyliau crefyddol a diwylliannol a sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o ddyddiadau pwysig i fod yn sensitif i anghenion y bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.**
- **Rhannu sut mae adborth gan bobl a chymunedau wedi dylanwadu ar newidiadau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**
- **Meithrin ein cysylltiadau â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru i helpu pawb yng Nghymru sydd am ddefnyddio offer a thechnolegau digidol yn eu bywydau bob dydd i deimlo'n hyderus yn gwneud hynny.**
- **Cydnabod nad oes gan rai pobl fynediad hawdd at dechnolegau digidol ac addasu ein dulliau cyfathrebu i gyrraedd y bobl hyn.**

CYFATHREBU MEWNOL

Mae ein pobl yn ganolog i lwyddiant Llais, ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chyflwyno ar yr amser iawn, yn y ffordd gywir, ac i'r pobl gywir.

Rydym am greu diogelwch seicolegol yn Llais. Mae hyn yn golygu bod yn sefydliad lle rydym yn gwneud lle ac amser i gwestiynau, yn annog dysgu, yn dod o hyd i ffyrdd parchus o gael gwahanol feddyliau a barn. Rydym am i'n pobl gael llais wrth ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw anawsterau, gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion heb boeni am yr hyn a fydd yn digwydd os byddwn yn dweud beth rydyn ni'n ei feddwl.



Ble ydyn ni nawr?

Cawsom ein ffurfio ym mis Ebrill 2023, gan ddisodli'r saith Cyngor Iechyd Cymuned blaenorol. Daethpwyd â llawer o staff o'r Cyngorau Iechyd Cymuned i Llais, sydd bellach â ffocws a phwrpas gwahanol.

Mae'r newid hwn wedi bod yn arwyddocaol i lawer o'n staff a'n gwirfoddolwyr. Mae angen i ni wella cyfathrebu mewnol er mwyn helpu i gyfuno'r saith diwylliant gwahanol hyn yn un dull "un-Llais" unedig.

Rydym yn ehangu ein gwaith i gynnwys gofal cymdeithasol, ac mae ein staff yn ennill gwybodaeth a phrofiad yn y maes hwn.

Mae rolau a chyfrifoldebau newydd wedi'u creu o fewn Llais, ac mae angen amser i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r newidiadau hyn.

Mae'r strwythur newydd yn golygu bod pobl yn dysgu am rolau ein gilydd a sut rydyn ni i gyd yn cyd-fynd fel un sefydliad.

Ble rydyn ni eisiau bod?

Rydym am fod yn un sefydliad unedig gyda hunaniaeth brand glir.

Mae ein pobl yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd ac yn cydweithio'n dda i gyflawni ein nodau strategol.

Ein nod yw cael gweithlu hyderus, medrus a gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n cynrychioli Llais yn falch.

Ymgysylltu

Rydym am i'n pobl ymwneud yn llawn â Llais, gan weithredu fel llysgenhadon cryf, a chyfrannu eu meddyliau a'u syniadau at ein gwaith.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod ein sianeli cyfathrebu yn darparu'r wybodaeth gywir i'r bobl iawn ar yr amser iawn.
- Archwilio ffyrdd newydd o gasglu mewnbwn ein pobl ar ein cyfeiriad.
- Creu proses awgrymiadau hawdd ei defnyddio ar gyfer gwelliannau parhaus.
- Cynhyrchu cynnwys mewnol sy'n cynnwys ein pobl yn y broses.
- Defnyddio llwyfannau amrywiol i ddiwallu anghenion pawb.
- Mynd i'r afael â chwestiynau ein pobl trwy ein cynnwys a'n cyfathrebu.



Gwella

Rydym am i'n pobl ddod o hyd i ffyrdd o weithio sy'n ysgogi gwelliannau a rhagoriaeth.

- Byddwn yn gwneud hyn drwy:
- **Amlygu ymchwil ac arfer da trwy ein cynnwys mewnol.**
- **Hysbysu ein pobl am gyfleoedd dysgu grŵp cyfoedion a rhannu adnoddau.**
- **Rhoi gwybod i'n tîm am gyfleoedd dysgu a datblygu.**
- **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n tîm am welliannau yn ein llwyfannau digidol.**

Cyfuno

Rydyn ni eisiau i'n pobl deimlo'n rhan o un sefydliad cysylltiedig, gan greu diwylliant Llais clir, a rennir.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Rhannu esboniad cyson o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.
- Sicrhau bod ein holl cynnwys yn adlewyrchu ein hunaniaeth brand.
- Cefnogi ein timau swyddfeydd rhanbarthol gyda brandio a negeseuon Llais.
- Dathlu a rhannu gwybodaeth o bob rhanbarth fel bod pawb yn teimlo cysylltiad ar draws Llais.
- Datblygu dealltwriaeth ein pobl o rôl pob tîm.
- Cefnogi'r gwaith i wreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiad ym mhopeth a wnawn a sut rydym yn cyfathrebu.

Cydnabod

Rydym am i'n pobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysgogi i weithio'n galed dros Llais.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- **Gweithio gyda chydweithwyr i roi cynlluniau gwobrwyo a chydnabod ar waith.**
- **Sicrhau bod ein pobl yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt.**
- **Cydnabod eu cyfraniadau.**

CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS A CHYFATHREBU MEWN ARGYFWNG

Mae'r pynciau rydyn ni'n delio â nhw yn aml yn sensitif, yn gyfrinachol ac yn emosiynol i'r rhai rydyn ni'n siarad â nhw. Efallai y bydd adegau pan fydd hyn yn golygu bod angen i ni fynd i'r afael â chwestiynau a sefyllfaoedd anodd. Ar adegau eraill, gall argyfyngau neu amhariadau allanol effeithio ar ein gallu i gyflawni ein gwaith yn effeithiol. Ar gyfer yr amseroedd hyn, mae cynllun cyfathrebu argyfwng yn hanfodol.

Rydym hefyd yn helpu pobl a chymunedau ar faterion a allai ddenu sylw'r cyfryngau a'r cyhoedd. Rydym yn cymryd agwedd ragweithiol trwy fonitro cyfryngau cymdeithasol a chadw llygad ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn cadw llygad am bynciau y gallai'r cyhoedd fod â diddordeb ynddynt, sy'n aml yn codi yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu.

Ble ydyn ni nawr?

Rydym yn creu ein cynllun cyfathrebu mewn argyfwng, sy'n cynnwys nodi cysylltiadau allweddol ac amlinellu gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod argyfyngau neu amhariadau i wasanaethau.

Ers sefydlu ein tîm Cyfathrebu, Mewnwelediad, ac Ymgysylltu, rydym wedi cyhoeddi pedwar datganiad i'r wasg. Mae tri o'r rhain wedi cael sylw gan y wasg.

Rydym wedi darparu cyfweiliadau yn y cyfryngau am Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a'r Gwasanaethau Adalw a Chludiant Meddygol Brys. Rydym wedi darparu sylwadau ar y streiciau meddygon iau, yn ogystal â sefydlu Llais ym mis Ebrill 2023.

Mae ymholiadau gan y cyfryngau yn cynyddu wrth i'r wasg ddod yn fwy cyfarwydd â Llais.

Ble rydyn ni eisiau bod?

Mae gennym gynllun cyfathrebu argyfwng clir. Os byddant yn wynebu mater cysylltiadau cyhoeddus allweddol neu amhariad ar wasanaethau, gall yr holl staff, gwirfoddolwyr, cysylltiadau â'r cyfryngau a rhanddeiliaid nodi'n gyflym y sianelau a'r unigolion cywir yn y sefydliad i reoli'r sefyllfa a gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n parhau.

Rydym yn cadw llygad am themâu, tueddiadau, a materion sy'n dod i'r amlwg yn ein gwaith, yn ogystal ag ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a phan fo gwybodaeth yn berthnasol i bobl Cymru, rydym yn cyfathrebu hyn yn brydlon.

Mae'r cyfryngau'n dod atom yn rheolaidd am sylwadau ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol allweddol a gallwn ymateb yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

SUT BYDDWN NI'N CYRRAEDD YNO?


Byddwn yn datblygu Cynllun Cyfathrebu Argyfwng sy'n cyflawni'r canlynol ac yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a'n rhanddeiliaid:

- **Darparu dull cydgysylltiedig o gyfathrebu cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad neu argyfwng.**
- **Cydlynu gydag asiantaethau partner sy'n ymwneud ag unrhyw ymateb i osgoi dryswch oherwydd negeseuon cymysg.**
- **Mae'n egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun.**
- **Yn disgrifio'r broses cyfathrebu mewn argyfwng ac yn darparu offer i helpu i'w rhoi ar waith.**

MESURAU

Byddwn yn mesur ein canlyniadau a'n heffaith trwy ddulliau amrywiol, a fydd yn cael eu nodi fel amcanion SMART yn ein Cynllun Cyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg gwe**
- **Cyfraddau trosi ar gyfer ymgyrchoedd marchnata**
- **Gwrando cymdeithasol a sganio'r gorwel**
- **Ymatebion arolwg**
- **Galwadau ffôn**
- **Ymholiadau e-bost**
- **Ymholiadau cyfryngau**
- **Hybu ein gwaith gan y GIG a Gofal Cymdeithasol**
- **Cynnydd yn nifer y ceisiadau am ein swyddi gwag**
- **Cynnydd mewn ceisiadau i wirfoddoli gyda Llais**
- **Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau**
- **Mwy o les staff a dealltwriaeth o rolau a ddangosir yn yr arolwg staff**




CAMAU NESAF

Bydd Cynllun Cyfathrebu gweithredol yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn i nodi'r camau sydd eu hangen i'n helpu i gyflawni ein nodau strategol. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cyfathrebu Mewnol – Staff a Gwirfoddolwyr**
- **Cyfryngau cymdeithasol**
- **Marchnata**
- **Hysbysebu**
- **Cysylltiadau Cyhoeddus**
- **Cyfathrebu mewn Argyfwng**
- **Cyfathrebu â Rhanddeiliaid**

Bydd y cynlluniau SMART yn nodi manylion pwy sy'n gyfrifol, y sianel, amserlen, amllder, a mesurau i gyflawni'r nodau strategol.

Bydd cynnydd y Strategaeth yn cael ei asesu, a bydd y Cynllun Cyfathrebu'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pennaeth Cynnwys Digidol a Chyfathrebu, dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol.



**Llais,
3ydd Llawr,
33 – 35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB**



**02920
235 558**

Am fwy o wybodaeth am y cyfathrebu hwn
Strategaeth, cysylltwch â:

communicationengagement@llaiscymru.org

